**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (BRYNGWYN ROAD, PONT-Y-PŴL, TORFAEN) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn a darparu'r darn o briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd, ac nid awdurdodir ei chau ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 24 Tachwedd 2021 o dan y cyfeirnod 20/P/0774/FUL a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Bryngwyn Road, Pont-y-pŵl, Torfaen) 2023 ("y Gorchymyn"), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn swyddfeydd Gwasanaethau Cymdogaethau Cyngor Torfaen, Tŷ Blaen Torfaen, Ffordd Panteg, New Inn, Pont-y-pŵl, NP4 0LS neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1733335.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 21 Awst 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (BRYNGWYN ROAD, PONTYPOOL, TORFAEN) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice and to provide for the length of new highway described in Schedule 2 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Torfaen County Borough Council on 24 November 2021 with reference 20/P/0774/FUL described in Schedule 3 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Bryngwyn Road, Pontypool, Torfaen) Order 2023 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Torfaen Council Neighbourhood Services, Ty Blaen Torfaen, Panteg Way, New Inn, Pontypool, NP4 0LS or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1733335.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 21 August 2023 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ben gorllewinol Bryngwyn Road, Pont-y-pŵl sydd ag arwyneb mwyaf o 706 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd newydd sydd i'w ddarparu**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r de o ben gorllewinol Bryngwyn Road, Pont-y-pŵl sydd ag arwyneb mwyaf o 505 o fetrau sgwâr, sydd wedi ei farcio â dotwaith ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**

**Y Datblygiad**

Dymchwel pedwar fflat a llety ategol ac adeiladu mynedfa/hyb newydd a 10 uned breswyl fforddiadwy a gwaith cysylltiedig yn Bryngwyn Road, Pont-y-pŵl.

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**

**Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway located on western end of Bryngwyn Road, Pontypool having a maximum surface of 706 square metres, marked with zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**(All measurements are approximate)**

**Length of new highway to be provided**

An irregular shaped length of highway located south of the western end of Bryngwyn Road, Pontypool having a maximum surface of 505 square metres, marked with stipple marking on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**

**The Development**

Demolition of four flats and ancillary accommodation and construction of new entrance/hub and 10 no. affordable residential units and associated works at Bryngwyn Road, Pontypool.